

Adran Un.

Wrth chwarae mae yn rhyddhau endorffins, helpu datblygu sgiliau creadigol a hunanfyneiant, ac yn ymddangos gwahanol ffurfiau i ddatrys problemau (Gascoyne, 2019, p. 49).

Credwyd Freud bod plant yn ymddangos ei syniadau a'i theimladau trwy chwarae (Henricks, 2015, p. 34). Wrth dangos ei theimladau trwy chwarae roedd y plentyn yn gwneud synnwyr o ei theimladau.

Mae yna sawl gwahanol fath o chwarae. Mae chwarae hewristig yn un fath o chwarae lle mai'r plant yn chwarae gyda gwrthrychau naturiol, a gwrthrychau sydd o gwmpas y tŷ. Dywedwyd Huleatt (2012) bod y fath yma o chwarae yn addas iawn i blant bach yn enwedig o 1 tan 3 blwydd oed, y plant sydd heb ddatblygu sgiliau sydd angen i ganolbwyntio am fwy na sawl munud ar y tro. Rôl yr oedolyn yw sicrhau ardal wag a clir a gosod y gwrthrychau mewn i ddau neu dri phentwr ar y llawr. Ac yna i eistedd i lawr a gadael i'r plant i ymarfer chwarae hewristig. Does dim angen mewnbwn lleisiol gan yr oedolyn. Wrth ystyried athroniaeth Piklr, dywed Salamon a Harrison (2015) nid oes angen mewnbwn oedolyn i helpu plentyn er mwyn datblygu ei sgiliau echddygol bras. Credwyd bod plant yn gallu dysgu trwy hunangyfeiriedig wrth wneud ymchwiliadau wrth chwarae heb gefnogaeth oedolyn.

Bydd angen digon o bob gwrthrych fel bod pob plentyn yn cael defnyddio pob gwahanol fath. Hefyd mae hyn yn helpu osgoi unrhyw ddadleuon gall digwydd rhwng y plant sydd yn gweld y gwrthrychau fel rhai nhw. Dyle awr fod yn ddigon o amser i'r fath yma o chwarae, gan gynnwys amser i dacluso ar y diwedd. Gall amser tacluso bod yn amser hwylus i'r plant hefyd trwy glywed y synau mae'r gwrthrychau yn ei gwneud wrth roi'r gwrthrychau yn y bag neu yn y bocs, a'i glywed yn glanio ar bethau arall. Mae'r term 'Hewristig' yn dod o'r Groeg 'eurisko', sydd yn golygu 'dwi'n ymchwilio' neu 'dwi'n chwilio' (Riddall-Leech, 2009, p. 2).

Mae ffordd yma o chwarae yn cefnogi sawl gwahanol agwedd o'i ddatblygiad; datblygiad corfforol wrth symud i fynd i ôl y gwrthrychau, datblygiad cymdeithasol wrth ddefnyddio tiwb cardfwrdd fel trymped a phlant yn copïo i ffurfio band cerddorol. Wrth i'r plant chwarae a darganfod beth sydd yn ffitio mewn i beth, bod rhai pethau yn gwneud gwahano sŵn wrth rwbio gyda'i gilydd, a beth sydd yn gweithio'n well na'i gilydd bydd yr hyn yn helpu'r plentyn i ddatblygu mewn ffordd gyfannol. Mae hyn rhan o chwarae hewristig ond hefyd yn wir ar gyfer chwarae sensori.

Mae'r term chwarae sensori yn golygu chwarae sydd yn cyffroi ein synhwyrâu, sef blas, golwg, teimlo, arogl a chlyw.

Rydym yn cymryd yn ganiataol yr helaethrwydd o ddysgu sydd yn cael ei gwneud wrth gael profiadau mewn gwahanol amgylcheddau a gyda gwahanol wrthrychau (Gascoyne, 2012, p. 40). Hynny yw, mae mynd am do yn y goedwig yn swnio'n eithaf syml ond mae yna gyfoeth yn y goedwig. Beth am neidio mewn i byllau? Beth sydd yn digwydd i'r dwr wrth i chi gneud hyn? Sut mae'r traed yn teimlo wrth iddyn nhw wlychu? Mae'r coed yn teimlo'n gwahano, rhai yn llyfn, rhai yn garw. Mae yn gwahanol synau i glywed, dail yn gresian o dan draed, adar yn hedfan uwch ben, falle hyd yn oed wiwer yn chwilio am gnau. Mae yna lawer i weld, gwahanol dail o wahanol goed, anifeiliaid gwyllt, gwahanol liwiau, y patrwm mae'r dail a choed yn creu ar y llawer wrth i'r haul gwenu trwy. Blodau o wahanol fathau yn agor lan, beth yw'r arogl yna? Mae yna gwahanol adnoddau ar gael er mwyn cefnogi chwarae sensori tu fewn y lleoliad. Mae defnyddio 'shaving foam' neu baent, yn ffordd dda i blant i greu gwahanol siapiau gyda'u bysedd neu ddefnyddio unrhyw wrthrych i wneud hyn.

Beth am goginio gyda'r plant? Nid ydi pob plentyn yn cael y profiadau fel hyn gartref, felly mae hyn yn gyfle i'r plentyn i dreial gwahano bwydydd ni fydd yn cael gartref. Cael y plant i greu pice ar y maen. Gall y plant rhwbio'r menyn a'r blawd gyda'i gilydd. Gall un cracio wy i mewn a gweithio mas pa mor galed i fwrw'r wy. Rôl yr oedolyn yw gosod y gwrthrychau allan a chefnogi'r plentyn ble mae angen. Ond mae'r rôl yr oedolyn yn bwysig oherwydd bydd angen meddwl am blant ADY. Nid fydd pob plentyn yn mwynhau rhoi ei dwylo i mewn i'r paent, neu'r menyn. Gall profiadau fel hyn i blant sydd a ADY, problemau prosesu sensori, awtistiaeth, i fod yn ormod (National Autistic Society, 2020). Os mae un plentyn ddim yn hapus i gymryd rhan, beth am gynnig brwsh paent iddo yn lle defnyddio bysedd?

Dywed John Comenius yr adeg gorau i'w ddysgu yw pryd mae'r synhwyrâu yn cael eu hysgogi (Platz ac Arellano, 2011, p. 57). Yn ôl Piaget, mae babanod a phlant ifanc yn gwneud synnwyr o brofiadau sensori o'r amgylchedd o'i gwmpas (Aubrey a Riley, 2019, p. 44).

Adran Dau.

Y peth pwysicaf gall ymarferydd gwneud er mwyn hyrwyddo gwahanol fathau o chwarae, yw rhoi caniatâd i'r plentyn. Hynny yw, i alluogi'r plentyn i'w deimlo fel bod hawl gyda nhw i chwarae, i wneud fel maen nhw am, heb unrhyw deimlad fel maen nhw'n cael ei feirniadu. Heb rhoi y 'caniatâd' yma bydd y plant ddim yn teimlo unrhyw berchenogaeth o'r rhyddhad i chwarae yn yr ardal chwarae (Play Wales, 2017). Wrth helpu plentyn i adeiladu ffydd yn ei hunan a ffydd yn y ffordd maent yn chwarae, bydd hyn yn helpu'r plentyn i deimlo'n ddiogel yn ei chwarae. Wrth i'r plentyn llwyddo mewn gwahanol fathau o dasgau, bydd hyn yn helpu codi hyder y plentyn. Gall agwedd y plentyn newid o "dydw i ddim yn gallu gwneud hon" i "falle gallai lwyddo i wneud hyn achos rydw i wedi llwyddo yn y dasg arall!" (Gehris, Gooze a Whitaker, 2014, p. 127). Mae gwaith ymchwil Barker *et al.* (2014) yn dweud bod plant sydd yn ymarfer chwarae llai strwythuredig yn gwella ei swyddogaeth gweithredwr hunangyfeiriedig, i gymharu â phlant sydd yn cael chwarae mwy strwythuredig, ac felly yn ymddangos llai swyddogaeth gweithredwr hunangyfeiriedig. Mae swyddogaeth gweithredwr hunangyfeiriedig yn datblygu yn sylweddol yn ystod plentyndod, ac yn cefnogi gweithrediadau uwch-lefel gwybyddol sydd yn cynnwys sut i wneud penderfyniadau a chynllunio, sut i ddelio gyda theimladau a sut i ymateb iddyn nhw. O ganlyniad, maent wedi darganfod bod plant sydd â swyddogaeth gweithredwr hunangyfeiriedig gwael yn mynd ymlaen i gael problemau iechyd, yn fwy tebygol o fod yn dlawd, a dangos canlyniadau cymdeithasol gwael. Er mwyn cefnogi hyn yn y lleoliad, gall ymarferydd rhoi blociau pren i'r plentyn a gadael iddyn nhw benderfynu beth i greu neu adeiladu allan o'r blociau. Does dim angen rhoi taflen o beth a dyle nhw adeiladu, neu beth sydd o ddisgwyl yn ôl ei hoedran. Gadewch i'r plentyn i ddarganfod y ffordd gorau i adeiladu beth maen nhw mwyn. Maent yn rhwydd iawn i ddweud wrth y plentyn y ffordd gorau i greu, er enghraifft, roced mwyaf dal. Ond mae'n bwysig i adael y plentyn i fod i ddarganfod y pethau hyn ei hunan, gall hyn codi hyder y plentyn hefyd. Nid oes angen cefnogaeth oedolyn er mwyn i blentyn i ddysgu sut i ddarllen (Riley, 2018, p. 27). Edrychodd Riley ar y gwahanol wybodaeth a phrofiadau o oedolion sydd wedi dysgu sut i ddarllen heb fod oedolyn yn gorfodi'r plentyn i ddarllen yn ystôd plentyndod. Cwblhawyd Riley, gall fod o gymorth i'r plentyn i roi rhyddid iddyn nhw i benderfynu pryd, a sut i ddarllen. Yn enwedig os ydynt yn darllen y llyfrau maent am ddarllen.

Mae plant sydd yn cwblhau tasgau sydd yn llawn hwyl a mwy fel oeddynt yn chwarae, ac mae'r oedolyn yn gwylio o bellter, yn actio ac ymddwyn mewn ffordd sydd yn fwy effeithiol er mwyn cefnogi ei ddysgu, na beth oedd plant sydd mewn lleoliad mwy ffurfiol gydag oedolyn sydd yna o hyd. Mae angen i oedolion i feddwl am chwarae fel mae plant yn meddwl am chwarae, ac nid beth mae'r oedolyn yn gweld fel chwarae. Wrth wneud hynny gall yr oedolyn sylwi pryd mae plant yn gweld chwarae'r dasg fel amser chwarae, a phenderfynu sut i annog datblygiad cyfannol y plentyn mewn ffordd mae'r plentyn yn gweld e fel ei bod yn chwarae, ond byddent yn dysgu mewn ffordd fwy effeithiol gan ei fod yn chwarae (McInnes *et al.* 2013, p. 280). Mae Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) yn cydnabod hyn. Maent yn sôn am y pwysigrwydd o chwarae gydag eich plentyn. Fan hyn mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r pwysigrwydd o chwarae gyda phlant gan ei fod yn dysgu trwy chwarae.

Mae angen i'r ymarferydd defnyddio'r tair elfen wahanol sef; Rôl yr oedolyn, Rôl profiadau a Rôl yr amgylchedd er mwyn herio ac ysbrydoli'r plant ifanc gyda'u ddysgu. Rôl yr oedolyn yw gwneud yn siŵr bod y plentyn yn datblygu mewn ffordd holistig (Llywodraeth Cymru, 2021). Dyma amser ble gall plentyn dysgu a meddwl am nid dim ond teimladau ei hunain, ond teimladau pobol eraill hefyd a sut i ddangos empathi. Mae hyn yn bwysig iawn ar gyfer plant sydd yn dioddef o esgeulustod gwael. Gall ymyriad cynnar helpu'r plentyn i adeiladu'r cysylltiadau synaptig mae heb ddatblygu oherwydd maent wedi dioddef o esgeulustod (Gerdes *et al.*, 2011, p. 113). Wrth ystyried y damcaniaethwyr Piaget ac Erikson, mae'r cwricwlwm yn Sweden hefyd yn cefnogi'r fath yma o chwarae er mwyn cefnogi datblygiad cyfannol (Westberg, 2021, p. 458).

Gan ystyried gwaith Bowlby ar ddamcaniaethau ymlyniad, dywed Troyer a Greitemeyer (2018, p. 198) bod angen i'r plentyn i deimlo'n saff er mwyn datblygu'r sgil o empathi. Bydd ymarferydd effeithiol yn darparu amgylchedd sydd yn gyfoethog o brofiadau dysgu i blant er mwyn datblygu sgiliau creadigol, dychymyg, sydd yn cyfoethogi sgiliau cyfathrebu. Roedd Bronfenbrenner yn ystyried y brif ffordd i blant i ddatblygu yw trwy ffurfio perthnasau gyda phobol eraill (Hayes, O'Toole a Halpenny, 2017, p. 96).

Adran Tri.

Dywed Hallet (2013, p. 62) bod arsylwi yn bwysig iawn i'r ymarferydd cael gwybodaeth am bob plentyn. Mae arsylwi yn rhoi gwybodaeth i'r ymarferydd er mwyn asesu beth

mae'r plentyn yn gallu ei wneud a ble mae angen unrhyw help ychwanegol. A dywed Hallet, bod yr ymarferydd yn arsylwi pob dydd yn y lleoliad i weld sut mae'r plentyn yn datblygu ym mhob agwedd o'i datblygiad.

Mae'r Proffil y Cyfnod Sylfaen yn ffordd i roi llawer iawn o wybodaeth i'r ymarferydd. Os mae'r ymarferydd yn defnyddio ffordd yma o arsylwi, gall hyn rhoi gwybodaeth gyson o'r plentyn o chwe mis tan ddiwedd y cyfnod sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2017). Ar ddiwedd y cyfnod sylfaen bydd yr ymarferydd yn cwblhau un arsylwad manwl er mwyn helpu'r ymarferydd o'r cyfnod allweddol dau i ddeall ble mae'r plentyn yn ôl ei ddatblygiad a'r gallu, er mwyn iddynt baratoi gwaith a thasgau sydd yn addas i'r plentyn a gweld ble mae angen mwy o gymorth.

Gall yr ymarferydd defnyddio'r Proffil y Cyfnod Sylfaen i gofnodi ble mae'r plentyn gyda'i ddatblygiad pan maent yn dechrau dosbarth Derbyn. Dyle hyn cael ei wneud yn y 6 wythnos gyntaf ar ôl iddynt ddechrau ysgol (Llywodraeth Cymru, 2017). Ond, mae rhai yn dweud bydd rhai plant angen mwy o amser i setlo na'i gilydd, neu dydi hyn ddim yn ddigon o amser i roi i'r plentyn i setlo mewn i leoliad newydd, yn enwedig os oes gan y plentyn gydag anghenion dysgu ychwanegol (Bounty, dim dyddiad; Barnardos, 2020).

Gall yr ymarferydd defnyddio ffordd yma i arsylwi'r plentyn am reswm penodol, er enghraifft i weld pa mor effeithiol mae tasg benodol wedi bod. Wrth arsylwi plentyn cyn y dasg, ac wedyn ar ôl tasg, mae'n bosib gwerthuso ac asesu pa mor llwyddiannus oedd y dasg.

Wrth ddefnyddio'r Proffil y Cyfnod Sylfaen i arsylwi bydd yr ymarferydd yn arsylwi o ryw bellter ac nid rhy agos, fel y dynesiad Froebel. Sydd yn dweud er bod yr ymarferydd yn arsylwi o bellter, mae'r ymarferydd yn ganolog i'r broses (Early Education, dim dyddiad). Gan ystyried y dynesiad Froebel, er mwyn cefnogi ac ymestyn datblygiad y plentyn mewn ffordd ystyrion, mae angen i'r ymarferydd cydnabod pob plentyn a'i gwahaniaethau. Mae arsylwi yn rhoi'r gwybodaeth yma (Tovey, 2017, p. 123). Gall yr arsylwi helpu'r ymarferydd i roi plant mewn gwahanol grwpiau yn ôl eu gallu. Bydd hyn o werth i'r plentyn. Bydd y plentyn yn cael ei rhoi mewn grŵp gyda phlant sydd falle yn cael yr un anawsterau a nhw, felly bydd yr ymarferydd yn rhoi tasgau sydd ddim yn rhy heriol iddyn nhw. Os ydi plentyn yn gweld tasgau yn rhy heriol gall hyn hala'r plentyn y deimlo'n tanseiliedig, a gall hyn effeithio ei hyder (Goel ac Aggarwal, 2012, p. 90). Os ydi'r ymarferydd yn gweld wrth arsylwi bod un plentyn yn cael anhawster gyda rhyw dasg, gall yr ymarferydd addasu'r dasg i

siwtio'r diddordebau'r plentyn. Er enghraifft, os mae plentyn i weld ei bod yn cael anhawster i gyfri lan i ddeg, ond mae'r ymarferydd wedi gweld bod y plentyn yma yn hoff iawn o weithio gyda chlai, gall yr ymarferydd rhoi tasg o gyfri wrth wneud siapiau neu rifau allan o glai.

Mae yna gwahanol fathau o gofnodi'r arsylwad, mae rhai ymarferydd yn cofnodi gan ddefnyddio'r llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen – Ffurflen Gofnodi. Mae hyn yn ffurflen sydd yn cofnodi manylion er mwyn darganfod pa lefel neu ddeilliant mae'r plentyn arno mewn gwahanol adrannau. Mae math hyn o arsylwi yn dda gan ei fod yn rhoi llawer o fanylion a gwybodaeth i'r ymarferydd o beth mae'r plentyn yn gallu ei wneud. Fodd bynnag, mae angen llawer o amser i lenwi'r ffurflen Proffil llawn, a hefyd dydi o ddim yn hawdd iawn i lenwi, felly dydi ymarferydd di-grefft ddim yn gallu defnyddio math hyn o arsylwi. Mae yna hefyd gwahanol ddogfennau neu 'apps' i gael i helpu cofnodi'r canlyniadau o'r arsylwad. Er enghraifft, mae'r app 'incerts' yn rhoi manylion o ba ddeilliant mae'r plentyn arno, a hefyd cyfle i'r ymarferydd i uwch lwytho gwaith y plentyn er mwyn cefnogi'r canlyniadau o'r arsylwad. Dydi fath hyn o arsylwi ddim yn rhoi gwybodaeth am beth yw rôl yr oedolyn yn ystod y dasg, odi'r plentyn yn blentyn sydd a ADY.

Mae math hyn o arsylwi yn canolbwyntio ar bedwar gwahanol ddiben; Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Datblygiad Mathemategol ac yna Datblygiad Corfforol (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mae'n amhosib peidio fod yn holl ragfarnllyd, ond dyle ymarferydd fod yn ymwybodol am hyn a deall sut gall hyn effeithio sut maent yn gweld y plentyn (Louis a Betteridge, 2020).

Adran Pedwar.

Yn ôl King a Sturrock (2020, p. 20) mae yna 6 elfen o'r 'Cylch Chwarae'. Mae yna; meddylfryd cyn-chwarae, ciwiau chwarae, dychwelyd chwarae, gofod chwarae, cwlwm a llifo, ac yn y diwedd yn gorffen gyda difodiant.

Meddylfryd cyn-chwarae yw pan mae'r plentyn yn cael y syniad o chwarae. Ciwiau chwarae sydd nesaf i ddatblygu, lle mae'r plentyn yn dechrau chwarae, neu ofyn i blentyn arall i chwarae neu hyd yn oed oedolyn i chwarae gyda nhw. Gall hyn edrych fel plentyn yn esgus bod nhw'n farchogaeth ceffyl ac yna yn edrych at y plentyn arall neu'r oedolyn a 'dangos' y ceffyl iddyn nhw. Mae cam hyn yn gallu datblygu mewn i'r

cam nesaf yn y Cylch Chwarae sef Dychwelyd Chwarae, neu maent yn cyrraedd y cam Difodiant. Mae'r canlyniad yn dibynni ar sut mae'r plentyn arall neu'r oedolyn yn ymateb. Os ydi'r plentyn arall neu'r oedolyn yn anwybyddu'r ciwiau mae'r syniad o'r chware wedi dod i ben a bydd y plentyn ddim am chwarae'r gêm rhagor, dyma Ddifodiant. Gall Difodiant hefyd digwydd oherwydd mae'r plentyn wedi rhedeg allan o amser i chwarae, falle maent yn amser mynd adre, neu mae'r gloch wedi canu. Ond, os bydd y plentyn arall neu'r oedolyn yn cymryd rhan yn y chwarae mae hyn yn troi mewn i Ddychwelyd Chwarae, ac yna i Gwlwm a Llifo ac mae'r Cylch yn cadw mynd. Mae yna hefyd y Gofod Chwarae i feddwl am. Hynny yw, yr ardal mae'r plentyn yn ei chwarae tŷ fewn. Mae'r ardaloedd neu'r gwahanol Ofod Chwarae yn amlwg ar yr iard chwarae. Gall edrych fel grŵp o blant yn chwarae pêl-droed, neu blant yn chwarae tag, neu chwarae Mam a Dad. Os bydd plentyn arall yn ymuno yn y gofod chwarae yma bydd y gêm yn newid rhyw faint (King a Newstead, 2020, p. 103).

Mae plant yn dysgu yn well trwy chwarae. Mae plant sydd mewn lleoliad ble mae mwy o chwarae a llai o dasgau ffurfiol yn niwlio'r llinellau rhwng chwarae a dim chwarae. O ganlyniad o hyn, maent yn fwy tebygol o weld gweithgaredd fel chwarae (McInnes *et al.* 2013, p. 270). Gan ystyried gwaith Howard a McInnes (2012, p. 737) mae plant sydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae yn gwneud yn well gyda'i lles emosiynol na phlant sydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau di-chwarae. Felly, bydd yr ymarferydd sydd yn arsylwi gyda dealltwriaeth fwy manwl gywir o beth yw'r gallu'r plentyn.

Wrth ystyried y pwysigrwydd o chwarae, dywed Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) bod popeth mae plentyn yn dysgu trwy chwarae, o ryw werth i'r plentyn. Maent yn dweud bydd datblygiad positif yn cael ei llyffetheirio os nad ydi'r plentyn yn cael cyfleoedd i chwarae mewn gwahanol amgylchoedd. Mae gwerth cofio bod erthygl 31 o'r UNCRC (Unicef, dim dyddiad) yn dweud bod hawl gyda phob plentyn i chwarae.

Mae yna sawl adroddiad sydd yn dangos bod plant o bob rhan o'r byd sydd yn chwarae trwy'r dydd, yn datblygu sgiliau ac agweddau sydd angen er mwyn bod yn llwyddiannus yn ei oed (Gray, 2011, p. 443). Mae hyn yn pwysleisio pa mor bwysig mae hi fod plant yn cael y cyfle i chwarae, a chwarae tu allan. Wrth chwarae tu allan maent yn helpu plentyn mewn ffordd gyfannol sydd yn cynnwys pob agwedd o'i datblygiad o iechyd a lles, i sgiliau modur gros. Gall chwarae tu allan darparu llwyth o wahanol brofiadau ni allent gael o chwarae mewn tu fewn. Credwyd Rousseau wrth

fyw mewn byd natur byddwch yn byw bywyd rhinweddol (Wilkinson, 2013, p. 33). Dywed Wilkinson (2013, p. 13), gall treulio amser tu allan helpu plant sydd a ADY. Gan ystyried gwaith Wilson (dim dyddiad, p. 4) rydym yn cydnabod bod pobol sydd yn frwdfrydig cymhelliant cynhenid a chymhelliant anghenid yn gwneud yn well yn y gweithgaredd na phobol sydd yn cael ei rheoli i wneud y gweithgaredd gan bobol eraill ac nid ei hun. Dangoswyd mwy o ddiddordeb i gwblhau'r dasg, cafwyd mwy o hwyl, dangosodd yn fwy hyderus. O ganlyniad roedd y bobol yn perfformio'n well, gallu meddwl yn greadigol. Hefyd gwellodd eu lles a hunan-barch. Wrth gymharid â phobol oedd yn cymryd rhan yn y dasg oherwydd roedd yn cael eu rheoli gan bobol eraill, roedd y bobol hon yn dangos yn fwy pryderus, gyda llai o hunan-barch.

Cyfeiriadau.

Aubrey, K. a Riley, A. (2019) *Understanding & Using Educational Theories*. London: Sage.

Barker, J.E. *et al.* (2014) 'Less-structured time in children's daily lives predicts self-directed executive functioning', *Development of Executive Function During Childhood*.

Ar gael:

https://www.frontiersin.org/articles/10.3389/fpsyg.2014.00593/full?_ga=1.242929867.851339493.1400829831 (Cyrchwyd: 6 Chwefror 2022).

Barnardos (2020) *Supporting your child with additional needs settle into school*. Ar

gael: <https://www.barnardos.org.uk/support-hub/supporting-your-child-additional-needs-settle-school> (Cyrchwyd: 18 Chwefror 2022).

Bounty (dim dyddiad) *Settling in at School*. Ar gael:

<https://www.bounty.com/preschool-2-to-4-years/starting-school-or-nursery/settling-in-at-primary-school> (Cyrchwyd: 18 Chwefror 2022).

Early Education (dim dyddiad) *Friedrich Froebel*. Ar gael: <https://early-education.org.uk/friedrich-froebel/#:~:text=Froebel%20believed%20that%20it%20was,and%20considering%20the%20children's%20environments> (Cyrchwyd: 19 Chwefror 2022).

Gascoyne, S. (2019) *Messy Play in the Early Years: Supporting Learning through Material Engagements*. Abingdon: Routledge.

Gascoyne, S. (2012) 'Play and exploration – getting the Fundamentals of communication correct', *Prep School: Reflecting the best in the prep & junior school world*, 75(3), pp. 40-41. Ar gael: <https://www.proquest.com/docview/1441485773/fulltextPDF/BD73CE80D0D847FCPQ/1?accountid=130472> (Cyrchwyd: 12 Chwefror 2022).

Gehris, J.S., Gooze, R.A. a Whitaker, R.C. (2014) 'Teacher's perceptions about children's movement and learning in early childhood education programmes', *Child: care, health and development*, 41(1), pp. 122-131. Ar gael: <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.1111/cch.12136> (Cyrchwyd: 6 Chwefror 2022).

Gerdes, K. E. et al. (2011) 'Teaching Empathy: A Framework Rooted in Social Cognitive Neuroscience and Social Justice', *Journal of Social Work Education*, 47(1), pp. 109-131. Ar gael: <https://blogs.baruch.cuny.edu/empathy/files/2019/05/TEACHING-EMPATHY-A-FRAMEWORK-ROOTED-IN-SOCIAL.pdf> (Cyrchwyd: 18 Chwefror 2022).

Goel, M. ac Aggarwal, P. (2012) 'A Comparative study of self confidence of single child and child with sibling', *International Journal of Research in Social Sciences*, 2(3), pp. 89-98. Ar gael: https://d1wqtxts1xzle7.cloudfront.net/32198749/IJMRA-RSS1379-with-cover-page-v2.pdf?Expires=1645268353&Signature=Yvs69r8PBknMguvlefWqGFPZGdtEtjxZLfVcN2PjP74~seBdL9c6uVdsqPPNGhH5QqrYMM1AM2ODFzJkiS4~P3s~3MZkVX~45v oMlhlMobw~b2R0ZXMLY-8Zp0IMzbwFxFtpvTFNFbkkLqySrTVfv88ilamAHU43SNqXZyc8xfsVHGqwDi-EOz-IsZj22AmBrMYz~rzK0zIjam9hzSVNj4c9q5PMvA11LYSMx9AVNTBrNzAs~g-9Kklm-0nUbUDJV7~nxy2s4RdfClnnGbu0ofd8Cf72Q6lHfy3CK8toZfQlA6anhSawKZJZvQu7NQc~ql3UumSOR27zNFvHgciu4lq_&Key-Pair-Id=APKAJLOHF5GGSLRBV4ZA (Cyrchwyd: 19 Chwefror 2022).

Gray, P. (2011) 'A decline of Play and the Rise of Psychopathology in Children and Adolescents', *American Journal of Play*, 3(4), pp. 443-463. Ar gael: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ985541.pdf> (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2022).

Hallet, E. (2013) *The Reflective Early Years Practitioner*. London: Sage.

Hayes, N. a O'Toole, L. a Halpenny, A.M. (2017) *Introducing Bronfenbrenner: A Guide for Practitioners and Students in Early Years*. Abingdon: Routledge.

Henricks, T. S. (2015) 'Play as Experience', *American Journal of Play*, 8(1), pp. 18-49. Ar gael: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1080011.pdf> (Cyrchwyd: 12 Chwefror 2022).

Howard, J. a McInnes, K. (2012) 'The impact of children's perception of an activity as play rather than not play on emotional well-being', *Child: care, health and development*, 39(5), pp. 737-742. Ar gael: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.1111/j.1365-2214.2012.01405.x?saml_referrer (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2022).

Huleatt, H. (2012) *Community Playthings*. Ar gael: <https://www.communityplaythings.co.uk/learning-library/articles/heuristic-play?source=pal198> (Cyrchwyd: 29 Ionawr 2022).

King, P. a Newstead, S. (2020) 'Re-defining the PLay ycle: An epirical study of playworkers' understanding of playwork theory', *Journal of Early Childhood Research*, 18(1), pp. 99-111. Ar gael: <https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.1177/1476718X19885991> (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2022).

King, P. a Sturrock, G. (2020) *The Play Cycle: Theory, Research and Application*. Abingdon: Routledge.

Llywodraeth Cymru (2017) *Llawlyfr Proffil Cyfnod Sylfaen*. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/api/storage/da19ae7c-1475-417c-93b5-601223068617//llawlyfr-proffil-y-cyfnod-sylfaen-diwygiwyd-medi-2017.pdf> (Cyrchwyd: 18 Chwefror 2022).

Llywodraeth Cymru (2021) *Agor Llwybrau*. Ar gael: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-05/agor-llwybrau-dogfen-ymgyngori_0.pdf (Cyrchwyd: 18 Chwefror 2022).

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) *Magu Plant: Rhowch amser iddo*. Ar gael: https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo/canllawiau-a-chyngor/cyngor-magu-plant/amgrymiadau-ar-gyfer-arwain-ymddygiad-plant/gwenwch-amser-i-wrando?gclid=EAlaIqObChMI5Nf_c_r9QIVxpBoCR0f5QGIEAAYASAAEgIax_D_BwE (Cyrchwyd: 6 Chwefror 2022).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Welsh Assembly Government Play Policy*. Ar gael: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/512203/mod_resource/content/1/playpolicy_e.pdf?redirect=1 (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2022).

Louis, S. a Batteridge, H. (2020) *Unconscious Bias in the Observation, Assessment and Planning Process*. Ar gael: <https://eyfs.info/articles.html/general/unconscious-bias-in-the-observation-assessment-and-planning-process-r338/> (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2022).

McInnes, K. e *tal.* (2013) 'The nature of adult-child interactions in the early years classroom: Implications for children's perceptions of play and subsequent learning behaviour', *European Early Childhood Education Research Journal*, 21(2), p. 268-282.

Ar gael: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/510449/mod_resource/content/1/The%20nature%20of%20adult%20child%20interaction%20in%20the%20early%20years%20classroom%20Implications%20for%20children%20s%20perceptions%20of%20play%20and%20subsequent%20learning%20behaviour.pdf?redirect=1 (Cyrchwyd: 6 Chwefror 2022).

National Autistic Society (2020) *Sensory differences – a guide for all audiences*. Ar gael: <https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/sensory-differences/sensory-differences/all-audiences> (Cyrchwyd 13 Chwefror 2022).

Platz, D. ac Arellano, J. (2011) 'Time Tested Early Childhood Theories and Practices', *Education*, 132(1), pp. 54-63. Ar gael: <https://web-s-ebshost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=367aa751-ea58-4f55-8c9f-fe3db3e0409d%40redis> (Cyrchwyd: 13 Chwefror 2022).

Play Wales (2017) *Play types*. Ar gael: <https://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEET%20Play%20types.pdf> (Cyrchwyd: 6 Chwefror 2022).

Riddall-Leech, (2009) *Heuristic Play: Play in the EYFS*. London: Practical Pre-School Books.

Riley, G. (2018) 'Exploring unschoolers' experiences in Learning to read: how reading happens within the self-directed learning environment', *The Journal of Unschooling and Alternative Learning*, 12(24), pp. 1-33. Ar gael: https://www.researchgate.net/profile/Gina-Riley-2/publication/328392837_EXPLORING_UNSCHOOLERS'_EXPERIENCES_IN_LEARNING_TO_READ_HOW_READING_HAPPENS_WITHIN_THE_SELF-DIRECTED_LEARNING_ENVIRONMENT/links/5bca3ea7a6fdcc03c79609ab/EXPLORING-UNSCHOOLERS-EXPERIENCES-IN-LEARNING-TO-READ-HOW-READING-HAPPENS-WITHIN-THE-SELF-DIRECTED-LEARNING-ENVIRONMENT.pdf (Cyrchwyd 6 Chwefror 2022).

Salamon, A. a Harrison, L. (2015) 'Early childhood educators' conception of infants' capabilities: the nexus between beliefs and practice', *Early Years: An International Research Journal*, 35(3), pp. 273-288. Ar gael: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/09575146.2015.1042961?scroll=top&needAccess=true> (Cyrchwyd: 1 Chwefror 2022).

Tovey, H. (2017) *Bringing the Froebel Approach to your Early Years Practice*. 2^{ail} edn. Abingdon: Routledge.

Troyer, D. a Tobias, G. (2018) 'The impact of attachment orientations on empathy in adults: Considering the mediating role of emotion regulation strategies and negative affectivity', *Personality and Individual Differences*, 122(no issue), pp. 198-205. Ar gael: <https://reader.elsevier.com/reader/sd/pii/S0191886917306384?token=5A76FE7AF38C4EEEA21D2236D7D09BECE2BC1CA854E92199F2A41D8B69E582F2453224538C9AA54411459522901ED5DA&originRegion=eu-west-1&originCreation=20220218135010> (Cyrchwyd: 18 Chwefror 2022).

Unicef (dim dyddiad) *Summary of the UN Convention on the rights of the child*. Ar gae: [https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf?_ad=sd=www.unicef.org.uk.1645370083219&_ad_ca=so%3DGoogle%26me%3Dorganic%26ca%3D\(not%2520set\)%26co%3D\(not%2520set\)%26ke%3D\(not%2520set\).1645370083219&_ad_cw=1645192562763.1645370083219&_ad_id=4f13f88d-2cde-4f4e-8237-f592a85ef46f.1634672860.12.1645370080.1645192563.8ab4f87f-5d72-4a28-805e-4fbfdd795052.1645370083219&_ga=2.215397335.1378962833.1645370080-554685058.1634672860](https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf?_ad=sd=www.unicef.org.uk.1645370083219&_ad_ca=so%3DGoogle%26me%3Dorganic%26ca%3D(not%2520set)%26co%3D(not%2520set)%26ke%3D(not%2520set).1645370083219&_ad_cw=1645192562763.1645370083219&_ad_id=4f13f88d-2cde-4f4e-8237-f592a85ef46f.1634672860.12.1645370080.1645192563.8ab4f87f-5d72-4a28-805e-4fbfdd795052.1645370083219&_ga=2.215397335.1378962833.1645370080-554685058.1634672860) (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2022).

Westberg, J. (2021) 'Designing preschools for an independent and social child: visions of preschool space in the Swedish welfare state', *Early Years: An International Research Journal*, 41(5), pp. 458-475. Ar gael: <https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/09575146.2019.1608426> (Cyrchwyd: 12 Chwefror 2022).

Wilkinson, R. (2013) *Outdoor learning in the early years: The benefits of outdoor learning in a natural environment*. Ar gael: https://d1wqtxts1xzle7.cloudfront.net/56685464/B.ed_thesis-with-cover-page-v2.pdf?Expires=1645375850&Signature=acXoqGzk~~pB21TXTRiYXm2wvdbhZyqhX1wz8ufrGfq8-BaPS1g0yKRmqyP9I4Pq9YbwPOzDvpbMSusm9rwg4k8XIYFz2zNMO82O4H~sFXLC3TDxplMcWGJnRXH6Y45mqjQmofvktafqZkPxutLWiZOmkiMJOPKDGmjMhZppRuHeYNjMI1Z25yKWcU3FQxIK-fyIMHXnoISHaYaDWTbD~Owc2tppbcazVlBoBH7yzWa5MFIclyc15g6camqIsI7cb0EYOK3FGbp9DkY5f-8zgayCJHw2QDiIVeSylW0xbjnl~0x~IW12qfUjl56KCjysd6rDrbmXNe7W~wRgQDRYWw__&Key-Pair-Id=APKAJLOHF5GGSLRBV4ZA (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2022).

Wilson, G. (dim dyddiad) *The Effects of External Rewards on Intrinsic Motivation*. Ar gael: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/510454/mod_resource/content/1/intrinsic%20motivation.pdf?redirect=1 (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2022).